



**HEDDLU
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
POLICE**

BWRDD CYD LYWODRAETHU

**28 Mehefin 2023 @ 10:00
AR-LEIN**

PRESENNOL:

Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid SCHTh (**Cadeirydd**)
Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio [RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Jonathan Maddock, TIAA [JM]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Sian Jones, Cydlynnydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Phil Kenyon, Gwasanaethau Cyfreithiol [PK]
Stephanie Maddix, CP CCPSH [SM] (cofnodion)
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [CCA]

YMDDIHEURIADAU:

Helen Corcoran, Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol
Sarah Davies, Arweinydd Llywodraethu a Moeseg y CA
Stephen Hughes, Prif Weithredwr SCHTh
Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllidebau
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd
Helen Williams, Cyfrifydd Rheoli Cyllid
Simon Williams, Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol

347. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 1 MAWRTH 2023

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

348. COFNOD GWEITHREDIADAU

Gweler y cofnod gweithrediadau ar wahân am ddiweddariadau.

349. CYTUNO AR DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynodd y CCA y Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2022-23 gan osod y dull a ddefnyddiwyd er mwyn ysgrifennu'r ddogfen ddiwygiedig.



Eglurodd fod sylw penodol wedi'i roi ar y meysydd canlynol o ganllawiau CIPFA er mwyn sicrhau fod y Datganiad diwygiedig yn fwy ystyrlon:

- Gwerthuso'r llywodraethu o ran y Cod Llywodraethu Corfforaethol lleol ac egwyddorion.
- Ei fod yn cael ei ysgrifennu agored ac y gellir ei chrynhai'n hawdd.
- Cynnwys nodi materion llywodraethu sylweddol a chynllun gweithredu i ymdrin â nhw.

Edrychwyd dros ddogfennau'r Datganiad gan heddluoedd a oedd wedi derbyn gradd ragorol yn Asesiad PEEL HMICFRS ar gyfer cwestiwn 12, o ran cynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth am arian. Tynnwyd y strwythurau cyffredin er mwyn ffurfio sail ein Datganiad diweddar. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodi'r hyn sydd gennym mewn lle er mwyn goruchwyllo llywodraethu ein prosesau'n effeithiol. Y rhain ydy'r Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol hwn – y Bwrdd Cyd Lywodraethu – a chrynodeb o'r hunanasesiadau sydd gan yr heddlu mewn lle: yr Adolygiad Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Llywodraethu a gomisiynwyd; Cynllun Gweithredu'r Datganiad; a Hunanasesiad Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA. Canfuwyd er nad oedd gan yr heddluoedd rhagorol unrhyw faterion llywodraethu sylweddol i'w codi, byddant yn defnyddio dogfennau'r Datganiad er mwyn amlygu meysydd sydd wedi effeithio ar lywodraethu. Yn ein hachos ni, byddai'n cyfeirio at yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig, newid Prif Gwnstabl a manylion amserlenni estynedig ar gyfer archwiliadau allanol.

Eglurodd y CCA fod y ddogfen yn parhau fel drafft. Byddai cynnwys yn cael ei ychwanegu dros y misoedd nesaf er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein sefyllfa pan gymeradwyir y cyfrifon ym mis Rhagfyr. Byddai'r cynnwys hysbys sydd eto i'w ychwanegu ato yn cynnwys y canfyddiadau o'r Adolygiad Llywodraethu unwaith mae wedi dod i ben, y farn archwilio mewnol olaf ynghyd ag unrhyw faterion llywodraethu eraill o bwys.

Penderfyniad Cymeradwyodd aelodau'r dull a oedd wedi'i chymryd o ran drafftio Datganiad Llywodraethu Blynyddol diwygiedig 2022-23.

Diolchodd y Cadeirydd di aelodau am eu mewnbwn drwy gydol y flwyddyn er mwyn cynorthwyo drafftio'r ddogfen ddiwygiedig hon o'r Datganiad.

350. DATGANIAD O GYFRIFON

Rhoddodd GE ddiweddariad ar yr amserlen ddiwygiedig pan fyddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei pharatoi, ei harchwilio a'i hardystio. Crëwyd yr alldro erbyn canol mis Mai. Byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei gymeradwyo erbyn diwedd mis Mehefin. Byddai'r archwiliad wedyn yn cael ei gynnal yn yr hydref hefo ardystiad wedi'i drefnu ar gyfer 7 Rhagfyr 2023. Mae hyn wedi'i gadarnhau fel derbyniol gan Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ond mae'n amodol ar y SCHTh yn rhannu hysbysiadau penodol ar eu gwefan er mwyn hysbysu pan gyhoeddir y cyfrifon.

Wrth i amserlen yr archwiliad orgyffwrdd cyfnod cyllidebu'r heddlu, mae sawl lliniariad wedi digwydd. Mae'r Adran Gyllid wedi cymryd mis ychwanegol er mwyn gwneud addasiadau bach i'r datganiad cyfrifon. Bydd system rhannu gwybodaeth hefo'r tîm Archwilio yn cael ei ddefnyddio er mwyn

lanlwytho manylion pellach. Mae'r oedi i amserlen yr archwiliad yn fater o bwys a ddylid cael ei amlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Cynhaliwyd cyfarwyddyd technegol Cyfrifon hefo aelodau'r CA ddoe. Dywedodd RB ei bod wedi bod yn sesiwn gynhyrchiol hefo sawl gweithrediad wedi'u cofnodi er mwyn cyfrannu at gymeradwyo'r cyfrifon drafft yn ddiweddarach y mis hwn. Ceisiwyd sicrwydd ynghylch eglurder a thryloywder y cronfeydd wrth gefn gan aelodau'r CA. Cadarnhawyd y byddai'r naratif yn cael ei ddatblygu er mwyn ymdrin â hyn.

Sicrhodd GE fod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu hadolygu'n barhaus. Er enghraifft, mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r cynllun ar gyfer unrhyw ddefnydd o'r cronfeydd wrth gefn. Roedd y swm o fewn y cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn adlewyrchu'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig o fewn rhagdybiaethau'r Cynllun. Yn ystod y broses cynllunio sefydliadol, trafodir ystyried y defnydd gorau o'r cronfeydd wrth gefn yn barhaus. Mae ein mantolen gref yn rhoi'r cyfle i'r heddlu rheoli cyllidebau dros y tymor canolig.

Ychwanegodd y CCA fod gwaith cenedlaethol yn digwydd mewn fforymau cyllid ynghylch cadernid ariannol heddluoedd. I'r heddluoedd hynny sydd ddim hefo mantolen mor gadarn ag y buasent yn hoffi ei chael, maent yn wynebu mwy o risg am unrhyw ddigwyddiadau heb eu cynllunio sydd tu allan i ragdybiaethau eu Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

351. ADOLYGIAD EFFEITHLONRWYDD AC EFFEITHIOLRWYDD LLYWODRAETHU

Diweddarodd SWJ y grŵp er mwyn hysbysu fod cyfnod 1 a 2 yr Adolygiad Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd Llywodraethu wedi'i gwblhau. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfod hefo uwch swyddogion a heddluoedd eraill (sef y rhai a raddiwyd yn rhagorol ar ddadansoddiad Cwestiwn 12 PEEL HMICFRS, ein heddluoedd tebycaf, a heddluoedd eraill Cymru), er mwyn nodi arfer da a themâu cyffredin. Mae adroddiad drafft wedi'i greu hefo 11 argymhelliad a gyflwynwyd i'r Prif Gwnstabl. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ym mis Gorffennaf i'w cymeradwyo. Os ydy'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cytuno ar hyn, byddant wedyn yn edrych ar fynd ymlaen i weithredu'r argymhellion. Byddai diweddariad sylweddol yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Cyd Lywodraethu.

Y prif argymhellion sydd wedi dod i'r amlwg fel arfer da ydy:

- Sicrhau fod y fframwaith/strwythur llywodraethu wedi glynu'n strategol at flaenoriaethau'r heddlu. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n gliriach sut y gyrrir y blaenoriaethau ymlaen gan yr heddlu.
- Cyfuno cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Rheoli Strategol a chyfarfodydd bob pythefnos yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gyfarfod misol. Bydd hyn yn gwneud gwell defnydd o amser uwch arweinwyr.
- Ymestyn y cynllun dirprwyo er mwyn galluogi byrddau oni bai am y Bwrdd Rheoli Strategol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wneud penderfyniadau. Bydd hyn hefo ffiniau clir ynghylch pa benderfyniadau a ellir eu gwneud ar y lefelau amrywiol. Dylai leihau dyblygu wrth rymuso byrddau.
- Ystyrir strwythur adrodd clir ar gyfer cyflawniad, a fydd yn cael ei ystyried ar bob lefel o'r heddlu, o Brif Swyddogion i staff rheng flaen.
- Cyflwyno porthor er mwyn goruchwyllo cyfarfodydd strategol. Mae hyn er mwyn sicrhau fod y cyfarfodydd yn canolbwyntio, yn cadw at y cylch gorchwyl ac yn lleihau dyblygu o fewn cyfarfodydd.

GWEITHREDIAD: SWJ i rannu copi o ddrafft yr adroddiad Adolygiad Llywodraethu hefo RB er gwybodaeth i aelodau'r CA.

Dyweddod y CCA fod gan yr argymhellion apêl resymegol, ond bydd angen gweithio drwy rai pethau ymarferol er mwyn gweithio drwyddynt os cytunir arnynt.

Ychwanegodd SWJ fod strwythur llywodraethu drafft wedi'i roi at ei gilydd fel rhan o'r adroddiad sydd angen rhywfaint o ddiwygiadau. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr fod y cyfarfodydd iawn o dan y colofnau cywir. Ond byddent yn gweithio er mwyn rhoi hyn mewn lle erbyn mis Medi.

351. a) ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL

b) ADOLYGIAD O GYHOEDDIADAU GAN ARCHWILIAD MEWNOL

c) CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL

Mae sefyllfa derfynol ar Gynllun Archwilio 2023/24 bellach wedi'i chyrraedd hefo TIAA. Mae Strategaeth a Chynllun yr Archwiliad i'w cael o fewn y pecyn agenda hwn. Rhennir hwn hefo aelodau'r Cydbwyllgor hefyd.

Nodwyd fod meysydd penodol yn cael trafferth ymdopi hefo cyfyngiadau amser ac mae elfen o drafod hefo'r Swyddog Cyllid a Chyllideb er mwyn cael eu harchwiliadau priodol wedi'u trefnu. Ond mae'r cydbwysedd rhwng llwythi gwaith o ran yr angen am sicrwydd a chraffu annibynnol yn cael ei reoli'n dda.

Disgwylir dogfennau terfynol 2022/23. Unwaith y cânt eu derbyn, byddai barn derfynol yr archwiliad yn bwydo i ddogfen y Datganiad.

Amlygodd y CCA bedwar archwiliad sicrwydd cyfyngedig o fewn yr adroddiad sydd i gyd yn symud ymlaen. Mae argymhellion O365 sy'n dyddio nôl i 2020 yn cysylltu hefo cyfnod 2 NEP. Maent ar hyn o bryd yn amodol ar gyfarfodydd mewnol lluosog, sy'n cynnwys cydweithwyr o'r swyddfa rheoli prosiectau, sicrwydd gwybodaeth a risg. Mae gwaith pellach eto i'w wneud cyn y gellir cau'r argymhellion, ond mae hyn yn symud ymlaen.

PENDERFYNIAD: Cytunwyd y gall adroddiadau'r dyfodol gael eu symleiddio i adroddiad prif bwytia. Ni fyddai angen cynnwys yr holl argymhellion sy'n weddill neu sydd wedi'u cwblhau, yn benodol oherwydd bod yr argymhellion sydd wedi'u cwblhau eisoes yn destun adolygiad gan TIAA.

353. RÔL SWYDDOG MONITRO AR GYFER YR HEDDLU

Cododd PK y bwriad o gyflwyno rôl Swyddog Monitro ar gyfer yr heddlu er mwyn gwella llywodraethu. Nid yw hon yn rôl statudol mewn heddluoedd ond mae ar gyfer cynghorau. Mae swyddog monitro ar gael i aelodau a swyddogion ymgynghori ar unrhyw faterion o rymoedd cyfreithiol yr heddlu, camweinyddu, materion anghywirdeb a gonestrwydd a chynghor cyffredinol ar drefniadau cyfansoddiadol. Mae PK yn rhagweld y rôl fel un sydd â mynediad i gyfarfodydd a phapurau ac yna cael cyfarfodydd chwarterol hefo'r Prif Gwnstabl a'r CHTh er mwyn cynnig craffu'r gorwel ac ymwybyddiaeth ynghylch pa bethau all yn y ddiwedd fod yn achos pryder ac a fyddai yno er mwyn herio'n adeiladol.

Mae heddluoedd Swydd Gaer, Glannau Mersi a Sir Gaerhirfryn wedi cyflwyno rôl swyddog monitro, drwy wneud newid i gytundeb cyflogaeth unigolyn. Mae felly'n rhan o'u rôl er mwyn codi materion. Yr adborth gan yr heddluoedd hynny ydy ei fod yn gweithio'n dda. Ychwanegodd PK er bod y cyfrifoldebau hyn yn rhan o'i rôl ef eisoes, fyddai'n ffordd o ymdrin yn ffurfiol ag o a gwella ei lywodraethu.

Mae PK wedi trafod hyn hefo prif swyddogion a SCHTh ac mae wedi derbyn cefnogaeth. Nid oes materion ar hyn o bryd sydd angen swyddog monitro. Ond fe wnaeth gynghori y byddai'n ddoeth gwneud y trefniadau hyn tra mae pethau'n mynd yn esmwyth.

Roedd aelodau yn cefnogi'r ymdriniaeth ac i PK symud ymlaen.

354. CYNLLUN GWEITHREDU'R CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Gwnaeth y CCA gyflwyno'r sleidiau isod er mwyn egluro cyd-destun Cynllun Gweithredu'r Cydbwyllgor Archwilio. Ei nod ydy ychwanegu at effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Archwilio, a chryfhau cysylltiad y CA mewn meysydd penodol wrth symud ymlaen.



Dylai'r broses gynorthwyo gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cydbwyllgor Archwilio yn berthnasol i bawb sy'n gysylltiedig. Bwriedir ei godi yng nghyfarfod y CA mis Gorffennaf fel eitem agenda. Byddai Cynllun Gweithredu'r CA ar gyfer 2023/24 yn cael ei gyflwyno wedyn, a fyddai'n cael ei dracio gan y fforwm hwn dros y flwyddyn.

Diolchodd RB i bawb a gyfrannodd at yr adborth, gan ei bod wedi bod yn ddefnyddiol iawn. Croesawodd adborth gan unrhyw un unrhyw dro gan ystyried sut i wella effeithiolrwydd y Cydbwyllgor Archwilio.

355. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

Cyflwynodd y CCA y gweithrediadau agored yn berthnasol i lywodraethu o gyfarfodydd y CA i aelodau'r Bwrdd hwn eu gweld a rhoddodd ddiweddariadau lle mae'n briodol.

356. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)

Cylchredwyd adroddiad Diweddariad Sicrwydd hefo'r agenda a chymerwyd ei fod wedi'i ddarllen. Ni chodwyd cwestiynau gan aelodau.

357. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN

Cytunwyd ychwanegu'r canlynol i'r Cynllun Gwaith Ymlaen:

- Cynnwys eitem bob 6 mis er mwyn monitro gwerthusiad y CA.
- Cynnwys y canlynol fel eitem yn y cyfarfod nesaf – Rôl Swyddog Monitro.

- Cynnwys y canlynol fel eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf – Diweddariad o'r Adolygiad Llywodraethu.

GWEITHREDIAD: SM i ddiweddarau'r Cynllun Gwaith Ymlaen er mwyn adlewyrchu'r ychwanegiadau uchod a gytunwyd.

358. UNRHYW FATER ARALL

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Llawlyfr Llywodraethu wedi'i ail-gadarnhau gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yng nghyfarfod diweddaraf y Bwrdd Gweithredol Strategol. Diolchodd i aelodau'r Bwrdd am eu mewnbwn.

**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF: Dydd Mercher 6 Medi 2023
Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023**